

2012 Rhif 1482 (Cy. 182)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

**Gorchymyn Cefnffordd yr A494
(Man i'r De o Bwll-glas, Sir
Ddinbych) (Cyfyngu a Gwahardd
Traffig Dros Dro) 2012**

Gwnaed

30 Mai 2012

Yn dod i rym

11 Mehefin 2012

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Dolgellau – Man i'r De o Birkenhead (A494) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “y gefnffordd”), wedi eu bodloni y dylai traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd gael ei gyfyngu neu ei wahardd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 11 Mehefin 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Man i'r De o Bwll-glas, Sir Ddinbych) (Cyfyngu a Gwahardd Traffig Dros Dro) 2012.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw'r cyfnod sy'n dechrau am 07:30 o'r gloch ar 11 Mehefin 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu tynnu oddi yno'n derfynol;

ystyr “y darn o'r gefnffordd” (“*the length of the trunk road*”) yw'r darn o gefnffordd yr A494 i'r de o Bwll-glas yn Sir Dinbych sy'n ymestyn tua'r de o bwynt canol ei chyffordd â'r ffordd sy'n arwain at yr eiddo o'r enw Fferm Pencoed hyd at bwynt canol ei chyffordd â'r ffordd ddi-ddosbarth sy'n arwain at Nantclwyd Hall.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd yn ystod yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 4 ar waith.

6. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond yn ystod yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau a'r cyfyngiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y

30 Mai 2012

G R Morgan

GARETH MORGAN

Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

- (1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
- (2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pŵerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.